**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2005 Rhif 363 (Cy.30)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Hylendid Bwyd yn Gyffredinol) (Diwygio) 2005

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru yn unig, ac maent yn diwygio ymhellach Reoliadau Diogewlch Bwyd (Hylendid Bwyd yn Gyffredinol) 1995 (O.S. 1995/1763 fel y'i diwygiwyd eisoes) sy'n gymwys i Brydain Fawr gyfan.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu Cyfarwyddeb y Comisiwn 2004/4/EC. Mae'r gyfarwyddeb honno'n diwygio Cyfarwyddeb 96/3/EC. Mae'r gyfarwyddeb honno'n caniatáu rhanddirymu darpariaethau penodol o Gyfarwyddeb y Cyngor 93/43/EEC sy'n ymwneud â hylendid deunyddiau bwyd o ran swmpgludo olew a braster hylif dros y môr (OJ Rhif L15, 22.1.2004, t.25) drwy roi diffiniad diwygiedig o'r ymadrodd "list of acceptable previous cargoes for liquid oils or fats" yn lle'r diffiniad presennol o'r ymadrodd hwnnw yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Diogelwch Bwyd (Hylendid Bwyd yn Gyffredinol) 1995 (rheoliad 2(2)). Mae'r diffiniad diwygiedig bellach yn cyfeirio at y rhestr a roddir yn yr Atodiad i Gyfarwyddeb y Comisiwn 96/3/EC (OJ Rhif L21, 27.1.96, t.42) fel y'i disodlwyd gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 2004/4/EC.

O ran olew a braster hylif sydd i'w prosesu ac a fwriedir i'w bwyta gan bobl neu sy'n debygol o gael eu bwyta gan bobl, mae Pennod IV o Atodlen 1 i Reoliadau Diogelwch Bwyd (Hylendid Bwyd yn Gyffredinol) 1995 yn darparu bod caniatâd i swmpgludo hwnnw ar longau mordwyol mewn tanciau nas cedwir at gludo deunyddiau bwyd yn unig os yw nifer benodol o lwythi blaenorol a gludwyd yn y

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2005 No. 363 (W.30)

# FOOD, WALES

## The Food Safety (General Food Hygiene) (Amendment) (Wales) Regulations 2005

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations, which apply in relation to Wales only, further amend the Food Safety (General Food Hygiene) Regulations 1995 (S.I. 1995/1763 as already amended) which apply to the whole of Great Britain.

These Regulations implement Commission Directive 2004/4/EC amending Directive 96/3/EC granting a derogation from certain provisions of Council Directive 93/43/EEC on the hygiene of foodstuffs as regards the transport of bulk liquid oils and fats by sea (OJ No. L15, 22.1.2004, p.25) by substituting a revised definition of the phrase "list of acceptable previous cargoes for liquid oils or fats" for the existing definition of that phrase in regulation 2(1) of the Food Safety (General Food Hygiene) Regulations 1995 (regulation 2(2)). The revised definition now refers to the list set out in the Annex to Commission Directive 96/3/EC (OJ No. L21, 27.1.96, p.42) as replaced by Commission Directive 2004/4/EC.

Chapter IV of Schedule 1 to the Food Safety (General Food Hygiene) Regulations 1995 provides that the bulk transport in sea-going vessels of liquid oils or fats which are to be processed and which are intended for or are likely to be used for human consumption is permitted in tanks that are not exclusively reserved for the transport of foodstuffs if a certain number of previous cargoes transported in the

tanciau i gyd o'r "list of acceptable previous cargoes for liquid oils or fats" fel y'i diffiniwyd yn rheoliad 2(1) o'r Rheoliadau hynny.

Mae arfarniad rheoliadol wedi baratoi ar gyfer y Rheoliadau hyn a'i roi yn llyfrgell Cynulliad Cenedlaethol Cymru ynghyd â Nodyn Trosi. Gellir cael copïau gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Llawr 11, Southgate House, Wood Street, Caerdydd, CF10 1EW.

tanks were from the "list of acceptable previous cargoes for liquid oils or fats" as defined in regulation 2(1) of those Regulations.

A regulatory appraisal has been prepared for these Regulations and placed in the library of the National Assembly for Wales together with a Transposition Note. Copies may be obtained from the Food Standards Agency, 11th Floor, Southgate House, Wood Street, Cardiff, CF10 1EW.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2005 Rhif 363 (Cy.30)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Hylendid Bwyd yn Gyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2005

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *22 Chwefror 2005* |
| *Yn dod i rym* | *1 Mawrth 2005* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod wedi'i ddynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf Cymunedau Ewrop 1972(**2**) o ran mesurau sy'n gysylltiedig â bwyd, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan yr adran honno, yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

**Enwi, cymhwyso a chychwyn**

**1**. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Hylendid Bwyd yn Gyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2005, maent yn gymwys o ran Cymru'n unig a deuant i rym ar 1 Mawrth 2005.

**Diwygio Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Hylendid Bwyd yn Gyffredinol) 1995**

**2**.-(1) Diwygir Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Hylendid Bwyd yn Gyffredinol 1995(**3**) yn unol â pharagraff (2) i'r graddau y maent yn gynmwys o ran Cymru.

(2) Ym mharagraff (1) o reoliad 2 (dehongli), yn lle'r diffiniad o "list of acceptable previous cargoes for liquid oils or fats" rhodder y diffiniad canlynol -

""list of acceptable previous cargoes for liquid oils or fats" means the list set out in the Annex to Commission Directive 96/3/EC granting a derogation from certain provisions of Council Directive 93/43/EEC on the hygiene of foodstuffs

(1) O.S. 2003/2901.

(2) 1972 p. 68.

(3) O.S.1995/1763, a ddiwygiwyd gan O.S. 1997/2537; y mae offerynnau diwygio eraill i'w cael, ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2005 No. 363 (W.30)

# FOOD, WALES

## The Food Safety (General Food Hygiene) (Amendment) (Wales) Regulations 2005

| | |
|---|---|
| *Made* | *22 February 2005* |
| *Coming into force* | *1 March 2005* |

The National Assembly for Wales, being designated(**1**) for the purposes of section 2(2) of the European Communities Act 1972(**2**) in relation to measures relating to food, in exercise of the powers conferred on it by that section, makes the following Regulations:

**Title, application and commencement**

**1**. These Regulations may be cited as the Food Safety (General Food Hygiene) (Amendment) (Wales) Regulations 2005, apply in relation to Wales only and come into force on 1 March 2005.

**Amendment to the Food Safety (General Food Hygiene) Regulations 1995**

**2**.-(1) The Food Safety (General Food Hygiene) Regulations 1995(**3**) are amended in accordance with paragraph (2) in so far as they apply in relation to Wales.

(2) In paragraph (1) of regulation 2 (interpretation), for the definition of "list of acceptable previous cargoes for liquid oils or fats" there is substituted the following definition -

""list of acceptable previous cargoes for liquid oils or fats" means the list set out in the Annex to Commission Directive 96/3/EC granting a derogation from certain provisions of Council Directive 93/43/EEC on the hygiene of foodstuffs

(1) S.I. 2003/2901.

(2) 1972 c. 68.

(3) S.I. 1995/1763, amended by S.I. 1997/2537; there are other amending instruments but none is relevant.

as regards the transport of bulk liquid oils and fats by sea(**1**) as amended by Commission Directive 2004/4/EC amending Directive 96/3/EC granting a derogation from certain provisions of Council Directive 93/43/EEC on the hygiene of foodstuffs as regards the transport of bulk liquid oils and fats by sea(**2**);".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**).

22 Chwefror 2005

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(1) OJ Rhif L21, 27.1.96, t.42.

(2) OJ Rhif.L15, 22.1.2004, t.25.

(3) 1998 p.38.

©Ⓣ Hawlfraint y Goron 2005

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

as regards the transport of bulk liquid oils and fats by sea(**1**) as amended by Commission Directive 2004/4/EC amending Directive 96/3/EC granting a derogation from certain provisions of Council Directive 93/43/EEC on the hygiene of foodstuffs as regards the transport of bulk liquid oils and fats by sea(**2**);".

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**3**).

22 February 2005

*D. Elis-Thomas*

The Presiding Officer of the National Assembly

(1) OJ No. L21, 27.1.96, p.42.

(2) OJ No. L15, 22.1.2004, p.25.

(3) 1998 c.38.

© Crown copyright 2005

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-091071-0

9 780110 910710

**£3.00**

W12/3/05 ON